OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 373 (Cy. 116) (C. 12)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 2) 2021

*Gwnaed - - - - 22 Mawrth 2021*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 100(3) a (4) o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 2) 2021.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

mae i "anhawster dysgu" yr un ystyr â "learning difficulty" yn—

(i) adran 312(2) o Ddeddf 1996—

(aa) mewn perthynas â phlentyn yn ardal awdurdod lleol yng Nghymru ond nid plentyn sy'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol brif ffrwd yn Lloegr,

(bb) mewn perthynas â phlentyn yn ardal awdurdod lleol yn Lloegr sy'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru, fel pe bai "in the area of a local authority in Wales" wedi ei hepgor,

(ii) adran 20 o Ddeddf 2014 mewn perthynas â phlentyn yn ardal awdurdod lleol yng Nghymru sy'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol brif ffrwd yn Lloegr;

mae i "asesiad o anghenion AIG" yr un ystyr ag "EHC needs assessment" yn adran 36(2) o Ddeddf 2014;

mae i "awdurdod lleol" yr un ystyr â "local authority" yn adran 579 o Ddeddf 1996;

**[**[F1]ystyr "blwyddyn 11" ("*year 11*") yw grŵp blwyddyn y bydd mwyafrif y plant, yn ystod y flwyddyn ysgol, yn cyrraedd 16 oed;

mae i "blwyddyn ysgol" yr un ystyr â "school year" yn adran 579 o Ddeddf 1996;

ystyr "grŵp blwyddyn" ("*year group*") yw grŵp o blant mewn ysgol y bydd y mwyafrif ohonynt, mewn blwyddyn ysgol benodol, yn cyrraedd yr un oedran;**]**

mae i "cynllun AIG" yr un ystyr ag "EHC Plan" yn adran 37(2) o Ddeddf 2014;

(**1**) 2018 dccc 2.

mae i "darpariaeth addysgol arbennig" yr un ystyr â "special educational provision" yn—

(i) adran 312(4) o Ddeddf 1996—

(aa) mewn perthynas â phlentyn yn ardal awdurdod lleol yng Nghymru ond nid plentyn sy'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol brif ffrwd yn Lloegr,

(bb) mewn perthynas â phlentyn yn ardal awdurdod lleol yn Lloegr sy'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru fel pe bai "in relation to a child in the area of a local authority in Wales" wedi ei hepgor,

(ii) adran 21 o Ddeddf 2014 mewn perthynas â phlentyn yn ardal awdurdod lleol yng Nghymru sy'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol brif ffrwd yn Lloegr;

ystyr "Deddf 1996" ("*the 1996 Act*") yw Deddf Addysg 1996(**2**);

ystyr "Deddf 2014" ("*the 2014 Act*") yw Deddf Plant a Theuluoedd 2014(**3**);

mae i "disgybl cofrestredig" yr un ystyr â "registered pupil" yn adran 434 o Ddeddf 1996;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018;

mae i "oedran ysgol gorfodol" yr un ystyr â "compulsory school age" yn adran 8(**4**) o Ddeddf 1996;

mae i "perchennog" yr un ystyr â "proprietor" yn adran 579 o Ddeddf 1996;

ystyr "Rheolau'r Tribiwnlys" ("*Tribunal Rules*") yw Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012(**5**);

ystyr "Tribiwnlys" ("*Tribunal*") yw Tribiwnlys Addysg Cymru(**6**);

mae i "yn ardal awdurdod lleol yng Nghymru" yr un ystyr ag "in the area of a local authority in Wales" yn adran 579(3B) o Ddeddf 1996;

mae i "yn ardal awdurdod lleol yn Lloegr" yr un ystyr ag "in the area of a local authority in England" yn adran 579(3A) o Ddeddf 1996;

ystyr "ysgol a gynhelir" ("*maintained school*") yw unrhyw ysgol gymunedol, ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol neu unrhyw ysgol arbennig gymunedol nad yw wedi ei sefydlu mewn ysbyty o fewn ystyr Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**7**);

mae i "ysgol brif ffrwd" yr un ystyr â "mainstream school" yn adran 83(2) o Ddeddf 2014.

(3) At ddibenion y Gorchymyn hwn dyfernir yn derfynol ar apêl—

(a) os caiff penderfyniad ei wneud gan dribiwnlys neu lys ar yr apêl, a

(b) os caniateir gwneud cais i adolygu'r penderfyniad neu os caniateir ei apelio ymhellach, daw'r cyfnod (neu bob un o'r cyfnodau) ar gyfer gwneud hynny i ben heb fod cais am adolygiad wedi ei wneud neu apêl bellach wedi ei dwyn.

**F1** Geiriau yn ergl. 1(2) wedi eu mewnosod (12.8.2021) gan Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygio Gorchymyn Cychwyn Rhif 2 a Dirymu Gorchymyn Cychwyn Rhif 3 a Gorchymyn Cychwyn Rhif 4) 2021 (O.S. 2021/938), **ergl. 2(2)**

(**2**) 1996 p. 56.
(**3**) 2014 p. 6.
(**4**) Diwygiwyd adran 8 gan adran 52 o Ddeddf Addysg 1997 (p. 44).
(**5**) O.S. 2012/322 (Cy. 53).
(**6**) Arferai Tribiwnlys Addysg Cymru gael ei alw'n Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. *Gweler* adran 91 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.
(**7**) 1998 p. 31.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I1** Ergl. 1 mewn grym ar 22.3.2021

**Ystyr anghenion addysgol arbennig a nodwyd**

**2.** Mae gan blentyn "P" "anghenion addysgol arbennig a nodwyd" at ddibenion y Gorchymyn hwn os oes gan P anhawster dysgu a nodwyd gan berchennog neu awdurdod lleol sy'n galw am wneud darpariaeth addysgol arbennig ar gyfer P.

**Gwybodaeth Cychwyn**
**I2** Ergl. 2 mewn grym ar 22.3.2021

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Medi 2021**

**3.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym ar 1 Medi 2021 ac eithrio mewn perthynas â pherson sy'n dod o fewn unrhyw un neu ragor o'r paragraffau yn erthygl 4 ar 1 Medi 2021—

(a) adrannau 2 i 4;
(b) adrannau 6 i 14;
**[**[F2](c) adrannau 17 i 36;**]**
(d) adran 38;
(e) adrannau 40 i 44;
(f) adrannau 47 i 49;
(g) adran 50(1) at ddibenion y darpariaethau ym mharagraff (h);
(h) adran 50(4) i (5);
(i) adrannau 51 i 53;
(j) adran 55;
(k) adran 59;
(l) adrannau 63 i 66;
(m) adrannau 68 i 69;
(n) adran 96 at ddibenion y darpariaethau ym mharagraff (o);
(o) yn yr Atodlen—
  (i) paragraff 1;
  (ii) paragraff 4(1) at ddibenion y darpariaethau yn is-baragraffau (iii) i (x);
  (iii) paragraff 4(2) i 4(8);
  (iv) paragraff 4(9);
  (v) paragraff 4(10);
  (vi) paragraff 4(13) i 4(18);
  (vii) paragraff 4(19)(b);
  (viii) paragraff 4(20) a 4(21);
  (ix) paragraff 4(23) i 4(29);
  (x) paragraff 4(32)(a)(i) a (ii) a pharagraff 4(32)(b);

(xi) paragraff 7;

(xii) paragraff 8;

(xiii) paragraff 11(a);

(xiv) paragraff 12(a);

(xv) paragraff 14(1) at ddibenion y darpariaethau yn is-baragraff (xvi);

(xvi) paragraff 14(2) a (3);

(xvii) paragraff 19(1) at ddiben y ddarpariaeth yn is-baragraff (xviii);

(xviii) paragraff 19(5)(e)(ii);

(xix) paragraff 21(1) at ddibenion y darpariaethau yn is-baragraff (xx);

(xx) paragraff 21(2)(a)(i) a (2)(b)(ii);

(xxi) paragraff 22;

(xxii) paragraff 23(1) at ddiben y ddarpariaeth yn is-baragraff (xxiii);

(xxiii) paragraff 23(4);

(xxiv) paragraff 24(1) at ddibenion y darpariaethau yn is-baragraff (xxv);

**[**[F3](xxv) paragraff 24(3) a (6)(a).**]**

**F2** Ergl. 3(c) wedi ei amnewid (21.6.2021) gan Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygiadau i Orchymynion Cychwyn Rhif 2, Rhif 3 a Rhif 4) 2021 (O.S. 2021/735), **ergl. 2(2)(a)**

**F3** Ergl. 3(o)(xxv) wedi ei amnewid (21.6.2021) gan Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygiadau i Orchymynion Cychwyn Rhif 2, Rhif 3 a Rhif 4) 2021 (O.S. 2021/735), **ergl. 2(2)(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** Ergl. 3 mewn grym ar 22.3.2021

**4.** Person—

**[**[F4](za) sydd ym mlwyddyn 11;

(zb) nad yw mewn ysgol ac a fydd yn cyrraedd 16 oed yn ystod y flwyddyn ysgol 2021-2022;**]**

(a) sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol;

(b) sydd ag anghenion addysgol arbennig a nodwyd;

(c) y mae awdurdod lleol wedi cyflwyno hysbysiad mewn perthynas ag ef o dan adran 323 o Ddeddf 1996 ac nad yw'r asesiad wedi cychwyn ac nad oes hysbysiad wedi ei roi o dan adran 323(6) o Ddeddf 1996;

(d) y mae cais wedi ei wneud mewn perthynas ag ef o dan adran 329 neu 329A o Ddeddf 1996 am asesiad o dan adran 323 o Ddeddf 1996 ac nad yw'r awdurdod lleol wedi penderfynu pa un ai i asesu ai peidio;

(e) y mae cais wedi ei wneud mewn perthynas ag ef o dan adran 329 neu 329A o Ddeddf 1996 am asesiad o dan adran 323 o Ddeddf 1996 a bod yr awdurdod lleol yn penderfynu peidio â chydymffurfio â'r cais ac—

(i) nad yw'r amser y mae rhaid i apêl o dan adran 329(2) neu 329A(8) o Ddeddf 1996 gael ei dwyn ynddo o dan Ran B o Reolau'r Tribiwnlys wedi dod i ben;

(ii) bod apêl wedi ei dwyn i'r Tribiwnlys o dan adran 329(2) neu 329A(8) o Ddeddf 1996 mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw ond na ddyfarnwyd yn derfynol arni; neu

(iii) dyfarnwyd yn derfynol ar apêl i'r Tribiwnlys o dan adran 329(2) neu 329A(8) o Ddeddf 1996 mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw a gorchmynnwyd i'r awdurdod lleol drefnu asesiad, ac nad yw'r asesiad hwnnw wedi cychwyn;

(f) y mae awdurdod lleol yn ymgymryd ag asesiad o anghenion addysgol mewn perthynas ag ef o dan adran 323 o Ddeddf 1996;

(g) y mae awdurdod lleol yn bwriadu peidio â gwneud datganiad mewn perthynas ag ef yn dilyn asesiad ac—

(i) nad yw'r amser y mae rhaid i apêl o dan adran 325(2) o Ddeddf 1996 gael ei dwyn ynddo o dan Ran B o Reolau'r Tribiwnlys wedi dod i ben;

(ii) bod apêl wedi ei dwyn i'r Tribiwnlys o dan adran 325(2) o Ddeddf 1996 mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw ond na ddyfarnwyd yn derfynol arni;

(iii) dygwyd apêl i'r Tribiwnlys o dan adran 325(2) o Ddeddf 1996 mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw a dyfarnwyd yn derfynol arni a gorchmynnwyd i'r awdurdod lleol—

(aa) gwneud a chynnal datganiad ac nad yw'r broses o wneud y datganiad wedi cychwyn; neu

(bb) ailystyried ei benderfyniad ac nad yw'r ailystyried hwnnw wedi cychwyn;

(h) y mae awdurdod lleol wedi penderfynu peidio â chynnal datganiad mewn perthynas ag ef o dan baragraff 11(1) o Atodlen 27 i Ddeddf 1996 mwyach ac—

(i) nad yw'r amser y mae rhaid i apêl o dan baragraff 11(2)(b) o'r Atodlen honno gael ei dwyn ynddo o dan Ran B o Reolau'r Tribiwnlys wedi dod i ben; neu

(ii) bod apêl wedi ei dwyn i'r Tribiwnlys o dan baragraff 11(2)(b) o'r Atodlen honno mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw ond na ddyfarnwyd yn derfynol arni;

(i) y mae asesiad mewn perthynas ag ef o dan adran 331 o Ddeddf 1996 yn mynd rhagddo;

(j) nad yw'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol ond y mae asesiad mewn perthynas ag ef o dan adran 140 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000(**8**)—

(i) yn mynd rhagddo; neu

(ii) wedi arwain at adroddiad ar anghenion addysgol a hyfforddi y person a'r ddarpariaeth sy'n ofynnol i'w diwallu;

(k) y mae cais wedi ei wneud mewn perthynas ag ef i awdurdod lleol i sicrhau asesiad o anghenion AIG o dan adran 36(1) o Ddeddf 2014 ac nad yw'r awdurdod lleol wedi penderfynu ar y cais hwnnw o dan adran 36(3);

(l) y mae awdurdod lleol wedi penderfynu, o dan adran 36, beidio â sicrhau asesiad AIG mewn perthynas ag ef ac—

(i) nad yw'r cyfnod ar gyfer dilyn cyfryngu mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw o dan adran 52 o Ddeddf 2014 wedi dod i ben;

(ii) bod cyfryngu o dan adran 55 o Ddeddf 2014 yn mynd rhagddo mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw;

(iii) bod tystysgrif gyfryngu wedi ei dyroddi o dan adran 55(4) o Ddeddf 2014 mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw ac nad yw'r cyfnod ar gyfer cyflwyno apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf o dan adran 51 o Ddeddf 2014 wedi dod i ben;

(iv) bod apêl wedi ei dwyn i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf o dan adran 51(2)(a) o Ddeddf 2014 mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw ond na ddyfarnwyd yn derfynol arni;

(**8**) 2000 p. 21.

(v) bod apêl wedi ei dwyn i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf o dan adran 51(2)(a) o Ddeddf 2014 mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw a dyfarnwyd yn derfynol arni a gorchmynnwyd i'r awdurdod lleol drefnu asesiad neu ailasesiad, ac nad yw'r asesiad hwnnw neu'r ailasesiad hwnnw wedi cychwyn;

(m) y mae awdurdod lleol wedi cyflwyno hysbysiad mewn perthynas ag ef o dan adran 36(7) o Ddeddf 2014 ei fod yn ystyried sicrhau asesiad o anghenion AIG ac—

(i) nad yw'r asesiad wedi cychwyn,

(ii) bod yr asesiad yn mynd rhagddo, neu

(iii) nad oes hysbysiad wedi ei gyflwyno o dan adran 36(9) o Ddeddf 2014;

(n) y mae awdurdod lleol wedi penderfynu o dan adran 36(9) o Ddeddf 2014 nad yw'n angenrheidiol gwneud darpariaeth addysgol arbennig yn unol â chynllun AIG mewn perthynas ag ef ac—

(i) nad yw'r cyfnod ar gyfer dilyn cyfryngu mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw o dan adran 52 o Ddeddf 2014 wedi dod i ben;

(ii) bod cyfryngu o dan adran 55 o Ddeddf 2014 yn mynd rhagddo mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw;

(iii) bod tystysgrif gyfryngu wedi ei dyroddi o dan adran 55(4) o Ddeddf 2014 mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw ac nad yw'r cyfnod ar gyfer cyflwyno apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf o dan adran 51 o Ddeddf 2014 wedi dod i ben;

(iv) bod apêl wedi ei dwyn i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf o dan adran 51(2)(b) o Ddeddf 2014 mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw ond na ddyfarnwyd yn derfynol arni;

(v) bod apêl wedi ei dwyn i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf o dan adran 51(2)(b) o Ddeddf 2014 mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw a dyfarnwyd yn derfynol arni a gorchmynnwyd i'r awdurdod lleol—

(aa) gwneud a chynnal cynllun AIG ac nad yw'r broses o wneud y cynllun AIG wedi cychwyn; neu

(bb) ailystyried ei benderfyniad ac nad yw'r ailystyried hwnnw wedi cychwyn;

(o) y mae awdurdod lleol wedi penderfynu o dan adran 45 o Ddeddf 2014 nad yw'n angenrheidiol mwyach gynnal cynllun AIG mewn perthynas ag ef ac—

(i) nad yw'r cyfnod ar gyfer dilyn cyfryngu mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw o dan adran 52 o Ddeddf 2014 wedi dod i ben;

(ii) bod cyfryngu o dan adran 55 o Ddeddf 2014 yn mynd rhagddo mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw;

(iii) bod tystysgrif gyfryngu wedi ei dyroddi o dan adran 55(4) o Ddeddf 2014 mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw ac nad yw'r cyfnod ar gyfer cyflwyno apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf o dan adran 51 o Ddeddf 2014 wedi dod i ben;

(iv) bod apêl wedi ei dwyn i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf o dan adran 51(2)(f) o Ddeddf 2014 mewn perthynas â'r penderfyniad hwnnw ond na ddyfarnwyd yn derfynol arni;

**F4** Ergl. 4(za)(zb) wedi ei fewnosod (12.8.2021) gan Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygio Gorchymyn Cychwyn Rhif 2 a Dirymu Gorchymyn Cychwyn Rhif 3 a Gorchymyn Cychwyn Rhif 4) 2021 (O.S. 2021/938), **ergl. 2(3)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** Ergl. 4 mewn grym ar 22.3.2021

**5.** Daw adrannau 40 i 44 o'r Ddeddf i rym ar 1 Medi 2021 mewn perthynas â phlentyn nad yw'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol ar 1 Medi 2021.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I5** Ergl. 5 mewn grym ar 22.3.2021

**6.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym ar 1 Medi 2021 mewn perthynas â pherson sy'n dod o fewn **[**[F5]y naill neu'r llall o'r paragraffau yn**]** erthygl 7—

(a) adrannau 2 i 4;

(b) adrannau 6 i 14;

**[**[F6](c) adrannau 17 i 36;**]**

(d) adran 38;

(e) adrannau 40 i 44;

(f) adrannau 47 i 49;

(g) adran 50(1) at ddibenion y darpariaethau ym mharagraff (h);

(h) adran 50(4) i (5);

(i) adrannau 51 i 53;

(j) adran 55;

(k) adran 59;

(l) adrannau 63 i 66;

(m) adrannau 68 i 69;

(n) adran 96 at ddibenion y darpariaethau ym mharagraff (o);

(o) yn yr Atodlen—

(i) paragraff 1;

(ii) paragraff 4(1) at ddibenion y darpariaethau yn is-baragraffau (iii) i (x);

(iii) paragraff 4(2) i 4(8);

(iv) paragraff 4(9);

(v) paragraff 4(10);

(vi) paragraff 4(13) i 4(18);

(vii) paragraff 4(19)(b);

(viii) paragraff 4(20) a 4(21);

(ix) paragraff 4(23) i 4(29);

(x) paragraff 4(32)(a)(i) a (ii) a pharagraff 4(32)(b);

(xi) paragraff 7;

(xii) paragraff 8;

(xiii) paragraff 11(a);

(xiv) paragraff 12(a);

(xv) paragraff 14(1) at ddibenion y darpariaethau yn is-baragraff (xvi);

(xvi) paragraff 14(2) a (3);

(xvii) paragraff 19(1) at ddiben y ddarpariaeth yn is-baragraff (xviii);

(xviii) paragraff 19(5)(e)(ii);

(xix) paragraff 21(1) at ddibenion y darpariaethau yn is-baragraff (xx);

(xx) paragraff 21(2)(a)(i) a (2)(b)(ii);

(xxi) paragraff 22;

(xxii) paragraff 23(1) at ddiben y ddarpariaeth yn is-baragraff (xxiii);

(xxiii) paragraff 23(4);

(xxiv) paragraff 24(1) at ddibenion y darpariaethau yn is-baragraff (xxv);

**[**[F7](xxv) paragraff 24(3) a (6)(a).**]**

**F5** Geiriau yn ergl. 6 wedi eu mewnosod (12.8.2021) gan Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygio Gorchymyn Cychwyn Rhif 2 a Dirymu Gorchymyn Cychwyn Rhif 3 a Gorchymyn Cychwyn Rhif 4) 2021 (O.S. 2021/938), **ergl. 2(4)**

**F6** Ergl. 6(c) wedi ei amnewid (21.6.2021) gan Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygiadau i Orchmynion Cychwyn Rhif 2, Rhif 3 a Rhif 4) 2021 (O.S. 2021/735), **ergl. 2(3)(a)**

**F7** Ergl. 6(o)(xxv) wedi ei amnewid (21.6.2021) gan Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygiadau i Orchmynion Cychwyn Rhif 2, Rhif 3 a Rhif 4) 2021 (O.S. 2021/735), **ergl. 2(3)(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I6** Ergl. 6 mewn grym ar 22.3.2021

**[**[F8]**7.** Person y mae cynllun datblygu unigol—

(a) yn cael ei lunio o dan adran 40 neu ei gadw o dan adran 42 o'r Ddeddf mewn perthynas ag ef;

(b) yn cael ei lunio neu ei gynnal o dan adran 14 o'r Ddeddf o ganlyniad i reoliad 23 o Reoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2021.**]**

**F8** Ergl. 7 wedi ei amnewid (12.8.2021) gan Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygio Gorchymyn Cychwyn Rhif 2 a Dirymu Gorchymyn Cychwyn Rhif 3 a Gorchymyn Cychwyn Rhif 4) 2021 (O.S. 2021/938), **ergl. 2(5)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** Ergl. 7 mewn grym ar 22.3.2021

**[**[F9]**7A.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Atodlen i'r Ddeddf i rym ar 22 Mehefin 2021—

(a) paragraff 24(1) at ddiben y ddarpariaeth ym mharagraff (b);

(b) paragraff 24(4).**]**

**F9** Ergl. 7A wedi ei fewnosod (21.6.2021) gan Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygiadau i Orchmynion Cychwyn Rhif 2, Rhif 3 a Rhif 4) 2021 (O.S. 2021/735), **ergl. 2(4)**

**8.** Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym ar 1 Medi 2021—

**[**[F10](za) adran 16;**]**

(a) adran 50(1) at ddibenion y darpariaethau yn is-baragraff (b);

(b) adran 50(2) i 50(3);
(c) adran 54 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;
(d) adran 56 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;
(e) adrannau 57 i 58;
(f) adrannau 70 i 73;
(g) adrannau 75 i 81;
(h) adrannau 83 i 95;
(i) adran 96 at ddibenion y darpariaethau ym mharagraff (j);
(j) yn yr Atodlen—
  (i) paragraff 2(1) at ddibenion y darpariaethau yn is-baragraff (ii) i (iii);
  (ii) paragraff 2(2)(b);
  (iii) paragraff 2(3);
  (iv) paragraff 3;
  (v) paragraff 4(1) at ddibenion y darpariaethau yn is-baragraffau (vi) i (xv);
  (vi) paragraff 4(9) i'r graddau y mae'n hepgor adran 333(1ZA), adran 333(2) i 333(6) ac adrannau 334 i 335;
  (vii) paragraff 4(12);
  (viii) paragraff 4(19)(a);
  (ix) paragraff 4(22);
  (x) paragraff 4(30)(a)(ii) a 4(30)(b);
  (xi) paragraff 4(31);
  (xii) paragraff 4(32)(a)(iii);
  (xiii) paragraff 4(33)(a);
  (xiv) paragraff 4(33)(b) i'r graddau y mae'n hepgor y cofnodion a ganlyn—
    "the appropriate national authority (in Chapter 2 of Part 4)"
    "the chairman's panel"
    "the lay panel"
    "the President"
    "the Tribunal"
  (xv) paragraff 4(33)(d), 4(33)(e) a 4(33)(g);
  (xvi) paragraff 6(d)(v) a pharagraffau 6(f) a 6(g);
  (xvii) paragraff 6(j)(i);
  (xviii) paragraff 6(l)(i) a 6(l)(iii);
  (xix) paragraff 6(n)(ii) i'r graddau y mae'n hepgor paragraff 11 o Atodlen 2 i Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009;
  (xx) paragraff 6(t);
  (xxi) paragraff 9;
  (xxii) paragraff 10;
  (xxiii) paragraff 11(b);
  (xxiv) paragraff 12(b);

(xxv) paragraff 13;

(xxvi) paragraff 14(1) at ddiben y ddarpariaeth yn is-baragraff (xxvii);

(xxvii) paragraff 14(4);

(xxviii) paragraff 15(1) at ddibenion y darpariaethau yn is-baragraff (xxix);

(xxix) paragraffau 15(3) i 15(4);

(xxx) paragraff 17;

(xxxi) paragraff 18;

(xxxii) paragraff 19(1) at ddibenion y darpariaethau yn is-baragraff (xxxiii);

(xxxiii) paragraffau 19(2), (3), (4), (5)(a) i (d), 5(e)(i), 5(f) i (h) a (6);

(xxxiv) paragraff 20;

(xxxv) paragraff 21(1) at ddiben y ddarpariaeth yn is-baragraff (xxxvi);

(xxxvi) paragraff 21(2)(b)(i);

(xxxvii) paragraff 23(1) at ddibenion y darpariaethau yn is-baragraff (xxxviii);

(xxxviii) paragraff 23(3)(a) i (c) a (5);

(xxxix) paragraff 24(1) at ddibenion y darpariaethau yn is-baragraff (xl);

**[**[F11](xl) paragraff 24(2), (5) a (6)(b) ac (c).**]**

**F10** Ergl. 8(za) wedi ei fewnosod (21.6.2021) gan Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygiadau i Orchmynion Cychwyn Rhif 2, Rhif 3 a Rhif 4) 2021 (O.S. 2021/735), **ergl. 2(5)(a)**

**F11** Ergl. 8(j)(xl) wedi ei amnewid (21.6.2021) gan Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygiadau i Orchmynion Cychwyn Rhif 2, Rhif 3 a Rhif 4) 2021 (O.S. 2021/735), **ergl. 2(5)(b)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I8** Ergl. 8 mewn grym ar 22.3.2021

*Kirsty Williams*

22 Mawrth 2021 — Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym ddarpariaethau yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("y Ddeddf").

Mae'r Ddeddf yn sefydlu fframwaith statudol ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn disodli'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag anghenion addysgol arbennig ac asesu plant a phobl ifanc ag anawsterau dysgu.

Daw'r darpariaethau a restrir yn erthygl 3 i rym ar 1 Medi 2021 mewn perthynas â phersonau penodol. Mae'r Gorchymyn yn gwneud hyn drwy eithrio o'r cychwyn hwnnw bersonau sy'n dod o fewn categori a nodir yn erthygl 4 ar 1 Medi 2021. Mae'r categorïau sydd wedi eu heithrio yn cynnwys y rheini sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol a'r rheini sy'n ymwneud â'r fframwaith statudol presennol. Mae hyn yn cynnwys y rheini sydd ag anghenion addysgol arbennig a nodwyd (gweler erthygl 2).

Daw'r darpariaethau a restrir yn erthygl 5 (darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer personau sy'n cael eu cadw'n gaeth) i rym ar 1 Medi 2021 ar gyfer y rheini nad ydynt yn hŷn na'r oedran ysgol gorfodol.

Daw'r darpariaethau a restrir yn erthygl 6 hefyd i rym ar 1 Medi 2021 ar gyfer personau y mae cynllun datblygu unigol yn cael ei lunio neu ei gadw o dan adran 40 neu 42 o'r Ddeddf mewn perthynas â hwy.

Daw'r darpariaethau a restrir yn erthygl 8 i rym yn llawn ar 1 Medi 2021.

## NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

Mae'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf wedi eu dwyn i rym drwy Orchymyn Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 4 (yn rhannol) | 2 Tachwedd 2020 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| Adran 5 | 2 Tachwedd 2020 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| Adran 7 (yn rhannol) | 2 Tachwedd 2020 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| Adran 8 (yn rhannol) | 2 Tachwedd 2020 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| Adran 15 | 2 Tachwedd 2020 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| Adran 16 (yn rhannol) | 2 Tachwedd 2020 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| Adran 21 (yn rhannol) | 2 Tachwedd 2020 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| Adran 32 (yn rhannol) | 2 Tachwedd 2020 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| Adran 36 (yn rhannol) | 2 Tachwedd 2020 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| Adran 37 | 2 Tachwedd 2020 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| Adran 39 | 2 Tachwedd 2020 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| Adran 45 | 2 Tachwedd 2020 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 46 | 2 Tachwedd 2020 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| Adran 47 (yn rhannol) | 2 Tachwedd 2020 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| Adran 54 (yn rhannol) | 2 Tachwedd 2020 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| Adran 56 (yn rhannol) | 2 Tachwedd 2020 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| Adran 56(1) | 4 Ionawr 2021 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| Adran 56(4) i (6) | 4 Ionawr 2021 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| Adran 60 | 4 Ionawr 2021 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| Adran 61 | 4 Ionawr 2021 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| Adran 62 | 4 Ionawr 2021 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| Adran 65 (yn rhannol) | 2 Tachwedd 2020 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| Adran 67 | 2 Tachwedd 2020 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| Adran 74 | 2 Tachwedd 2020 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| Adran 75 (yn rhannol) | 2 Tachwedd 2020 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| Adran 76 (yn rhannol) | 2 Tachwedd 2020 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| Adran 77 (yn rhannol) | 2 Tachwedd 2020 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| Adran 82 | 2 Tachwedd 2020 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| Adran 83 (yn rhannol) | 2 Tachwedd 2020 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| Adran 85 (yn rhannol) | 2 Tachwedd 2020 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| Adran 91 (yn rhannol) | 2 Tachwedd 2020 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| Adran 92 (yn rhannol) | 2 Tachwedd 2020 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| Adran 95 (yn rhannol) | 2 Tachwedd 2020 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| Adran 96 (yn rhannol) | 2 Tachwedd 2020 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |
| Yr Atodlen, paragraff 19(1), (4) a (5)(g) ac (h) (yn rhannol) | 2 Tachwedd 2020 | O.S. 2020/1182 (Cy. 267) (C. 33) |

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 2) 2021.